

Asesu ardaloedd cynhyrchu pysgod cregyn

Sut rydym ni'n asesu ardaloedd cynhyrchu pysgod cregyn.

Rydym ni'n asesu ac yn dosbarthu ardal gynhyrchu neu ailosod yn seiliedig ar arolwg ar lanweithdra.

Ni ellir dosbarthu ardal gynhyrchu neu ailosod pysgod cregyn hyd nes y cynhaliwyd asesiad o ffynonellau'r llygredd. Gall pobl ac anifeiliaid fod yn halogi'r ardal gynhyrchu neu ailosod.

Gall meintiau llygryddion organig sy'n cael eu rhyddhau i ardaloedd cynhyrchu pysgod cregyn amrywio ar wahanol adegau o'r flwyddyn, felly mae angen i asesiadau ystyried amrywiadau tymhorol.

Gall hyn gynnwys:

- darlleniadau glaw
- trin d'r gwastraff

Mae cylchrediad yn y d'r yn effeithio ar sut mae llygryddion yn symud o gwmpas. Rhaid i ni hefyd ddarganfod nodweddion y cylchrediad llygryddion yn yr ardal gynhyrchu gan ddefnyddio:

- patrymau cyfredol
- bathymetreg
- cylch llanw

Bydd rhaglen samplu molysgiaid dwygragenog yn yr ardal gynhyrchu yn seiliedig ar:

- y data mwyaf cywir o nifer o samplau dros amser
- dosbarthiad daearyddol o'r pwyntiau samplu
- amlder y samplu

Mae canlyniadau'r dadansoddiad mor gynrychioliadol â phosibl ar gyfer yr ardal o dan sylw.

Arolygon ar lanweithdra

Mae nifer o ffynonellau llygredd yn effeithio ar ardaloedd cynhyrchu ac ailosod pysgod cregyn. Rhaid i'r holl ardaloedd cynhyrchu ac ailosod pysgod cregyn newydd:

- fod wedi cael asesiadau o ffynonellau'r llygredd
- cael pwynt monitro cynrychioliadol ar gyfer samplu
- sefydlu cynllun samplu

Mae angen i ymgeiswyr (y cynaeafwr) lenwi ffurflen gais ar y cyd â'r awdurdod lleol i ofyn am ddosbarthu ardal pysgod cregyn neu ailosod newydd. Mae hyn yn darparu'r wybodaeth gychwynnol ar gyfer comisiynu arolwg ar lanweithdra.

Gellir lawrlwytho rhagor o wybodaeth am y broses ymgeisio (gan gynnwys gofynion cyn y gellir

cymeradwyo dosbarthiad) a'r ffurflen gais o'r [dudalen dosbarthu Pysgod Cregyn](#).
Ar ôl derbyn eich cais i ddsbarthu pysgod cregyn, byddwn ni'n gofyn i'n contractiwr gynnal asesiad ar lanweithdra.

Gellir cynnal arolygon ar lanweithdra hefyd;

- pan fo angen ar gyfer rhai diwygiadau i bwyntiau samplu
- pan fydd tystiolaeth yn dangos y gallai ffynonellau halogiad ysgarthol fod wedi newid
- os cynhaliwyd yr arolwg diwethaf ar lanweithdra ar gyfer yr ardal dros 6 blynedd yn ôl

Yr wybodaeth sy'n cael ei asesu yn ystod arolwg ar lanweithdra

Dyma'r wybodaeth a gaiff ei asesu:

- lleoliad a graddfa'r pysgod cregyn
- math o bysgodfa pysgod cregyn (rhywogaethau, dull cynaeafu, tymhorau cynaeafu)
- lleoliad, math a chyfaint y gollyngiadau carthffosiaeth
- lleoliad mewnbynnau afonydd a chyrsgiau d?r eraill
- ffynonellau amaethyddol a bywyd gwyllt
- lleoliad y porthladdoedd a'r marinas
- glawriad cyfartalog hanesyddol fesul mis
- unrhyw ffynonellau halogiad posibl eraill
- data microbiolegol presennol o ansawdd d?r neu fonitro pysgod cregyn a gynhaliwyd yn yr un ardal neu ardaloedd cyfagos.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen gwiriad ffisegol o'r safle a ffynonellau halogiad posibl mewn ardaloedd newydd hefyd. Gelwir hyn yn arolwg traethlin (shoreline).

Gall yr arolygon ar lanweithdra gael eu defnyddio yn y dyfodol gan adrannau'r llywodraeth neu sefydliadau mewn cysylltiad â rhaglenni buddsoddi mewn ansawdd d?r.

Adroddiadau Arolwg ac Aseidiadau Monitro

Rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2020, roedd trefniant dros dro ar waith ar gyfer asesu ardaloedd cynhyrchu newydd i bennu pwyntiau monitro cynrychioliadol (RMPs). Mae RMP yn un pwynt monitro o fewn ardal gynhyrchu pysgod cregyn, a all gynrychioli nifer o safleoedd yn yr ardal gynhyrchu honno.

O fis Ebrill 2020, comisiynwyd arolygon ar lanweithdra, sy'n ystyried asesiad ehangach o risg. Mae'r adroddiadau hyn i'w gweld isod:

[Adroddiadau arolwg ar lanweithdra Cefas 2007 hyd heddiw](#)

[RMP assessments April 2017 - March 2020](#)

Northern Ireland

[View Belfast Lough sanitary survey report as PDF](#) (2.38 MB)

Northern Ireland

[View Carlingford Lough sanitary survey report as PDF](#) (2.14 MB)

Northern Ireland

[View Dundrum bay interim review sanitary survey report as PDF](#) (606.16 KB)

Northern Ireland

[View Killough harbour sanitary survey report as PDF](#) (1.99 MB)

Northern Ireland

[View Larne Lough sanitary survey report as PDF](#) (3.11 MB)

Northern Ireland

[View Larne Lough sanitary review as PDF](#) (3.2 MB)

Northern Ireland

[View Lough Foyle sanitary survey report as PDF](#) (1.98 MB)

Northern Ireland

[View Belfast Lough sanitary survey review as PDF](#) (5.6 MB)

Northern Ireland

[View Strangford Lough sanitary survey report as PDF](#) (2.06 MB)

PWYSIG

Cyfeiriadau at yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn nogfennau canllaw'r Asiantaeth

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) wrthi'n diweddarau'r holl gyfeiriadau at yr Undeb Ewropeaidd (UE), er mwyn adlewyrchu'r gyfraith sydd bellach mewn grym yn gywir, ym mhob dogfen ganllaw newydd neu ddiwygiedig a gyhoeddir ar ôl i'r Cyfnod Pontio ddod i ben ddiwedd 2020. Mewn rhai amgylchiadau efallai na fydd bob amser yn ymarferol i ni ddiweddarau'r holl gyfeiriadau at yr UE ar yr adeg yr ydym ni'n cyhoeddi canllawiau newydd neu ddiwygiedig.

Ac eithrio yng Ngogledd Iwerddon, dylid darllen unrhyw gyfeiriadau at Reoliadau'r UE yn y canllawiau hyn i olygu cyfraith yr UE a ddargedwir (retained EU law). Gallwch weld cyfraith yr UE a ddargedwir trwy [Archif Ymadael â'r UE](#) Llywodraeth EM. Dylid

darllen y gyfraith hon ochr yn ochr ag unrhyw ddeddfwriaeth Ymadael â'r UE a wnaed i sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n gywir yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig (DU). Mae deddfwriaeth Ymadael â'r UE i'w gweld ar legislation.gov.uk. Yng Ngogledd Iwerddon, bydd cyfraith yr UE yn parhau i fod yn berthnasol mewn perthynas â'r rhan fwyaf o gyfraith hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid, fel a restrir ym [Mhrotocol Gogledd Iwerddon](#), ac ni fydd cyfraith yr UE a ddargedwir yn berthnasol i Ogledd Iwerddon o dan yr amgylchiadau hyn.